# Adroddiad Blynyddol Blwyddyn 2023 – 2024

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Agricultural Land Tribunal Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom Ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Ein Cwsmeriaid | 13 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 14 |
| **Adran 5** | Gwariant | 15 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Hawlfraint y Goron, WG50251, ISBN digidol 978-1-83625-344-0


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar gyfer 2023-24.

Mae'r Tribiwnlys yn parhau i geisio darparu gwasanaeth arbenigol, effeithlon a chyfeillgar i ddefnyddwyr am y gost isaf i ymgyfreithwyr ac i'r pwrs cyhoeddus. Yn wahanol i'r system lysoedd, ni thelir unrhyw ffi wrth wneud cais i'r Tribiwnlys, ac ymhob achos, bron, nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu costau'r ochr arall, waeth beth fo'r canlyniad. Yn wahanol i gyflafareddu preifat neu ddyfarniadau gan drydydd partïon, nid oes angen i'r partïon dalu unrhyw ffi i'r panel wrando ar achos. Mae'r Tribiwnlys felly'n ffordd fwy costeffeithiol o ddatrys anghydfodau.

Mae'r Tribiwnlys yn Dribiwnlys arbenigol, a hoffwn ddweud fy mod yn parhau i fod yn ddiolchgar i banel y Tribiwnlys o ffermwyr, perchnogion tir, ac arbenigwyr draenio. Rydym yn elwa'n fawr ar yr wybodaeth a'r profiad sydd ganddynt wrth ddatrys yr anghydfodau sy'n dod ger ein bron. Mae gan bob cwr o Gymru, a phob math o weithgarwch amaethyddol yng Nghymru, lais ar y Tribiwnlys. Roeddem yn gallu cwrdd yn ystod ein sesiwn hyfforddi blynyddol, a gynhaliwyd o bell, yn hydref 2023.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, Swyddog Cymorth y Tribiwnlys, ei reolwr busnes a'u cydweithwyr yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'm dau Ddirprwy Gadeirydd – y Barnwr Tanveer Rakhim a'r Barnwr Gareth Wilson – am eu gwaith ar ran y tribiwnlys. Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd y Barnwr Wilson i ymgymryd â dyletswyddau barnwrol eraill, ac rydym ar hyn o bryd yn y broses o recriwtio hyd at bedwar Dirprwy Gadeirydd i roi digon o adnoddau barnwrol i ni ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at groesawu o leiaf un aelod newydd perchnogion tir yn fuan.

Yn olaf, hoffwn i ddweud diolch ar ran y Tribiwnlys i Syr Gary Hickinbottom am ei arweiniad a'i gefnogaeth fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Dr Christopher McNall**
Cadeirydd y Tribiwnlys

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Sail y Tribiwnlys
- Swyddogaethau'r Tribiwnlys
- Rheolau/Rheoliadau'r Tribiwnlys
- Proses y Tribiwnlys
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Penodiadau ac Ymddeoliadau
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Mynediad at y Tribiwnlys

## Sail y Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn sefydliad statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, ac mae ganddo awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru.

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn chwarae rhan bwysig drwy ddatrys anghydfodau a phroblemau eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n gysylltiedig â chytundebau tenantiaeth sy'n cael eu dal o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru hefyd yn datrys anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Prif nodau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yw:

- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gosteffeithiol ac o ansawdd da i'r rheini sy'n defnyddio'r Tribiwnlys ac i'r aelodau.
- Sicrhau bod pob agwedd ar waith y Tribiwnlys yn cael ei gweinyddu mewn ffordd a fydd yn sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol.
- Gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol perthnasol yng Nghymru.

## Swyddogaethau'r Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â:

Draenio Tir:–

- Adfer neu wella ffosydd

Cytundebau tenantiaeth:–

- Hysbysiad ymadael â daliad
- Olyniaeth ar ôl marwolaeth
- Olyniaeth ar ôl ymddeoliad

Agweddau ar amaethyddiaeth:–

- Hwsmonaeth wael
- Llosgi grug neu laswellt
- Cyfarpar sefydlog
- Gwelliant/gwelliannau hirdymor
- Gerddi marchnad

## Rheolau/Rheoliadau'r Tribiwnlys

Mae'r rheoliadau sy'n rheoli'r Tribiwnlys i'w gweld yn y ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardal) 1982 (OS 1982/97)
- Deddf Draenio Tir 1991
- Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007

## Proses y Tribiwnlys

I wneud cais neu i gyflwyno apêl, rhaid ichi lenwi'r ffurflen gais perthnasol a'i hanfon at Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Derbynnir ceisiadau drwy'r post, neu e-bost. Ni chodir ffi am wneud cais i'r Tribiwnlys.

Bydd y Tribiwnlys yn cydnabod bod eich cais wedi dod i law. Bydd y Tribiwnlys yn cofrestru eich achos ymhen deg diwrnod gwaith neu'n ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth. Ar ôl i'r Cais gael ei gofrestru, bydd copi ohono'n cael ei anfon at y parti a fydd wedi'i enwi'n Ymatebydd.

Nid yw cais at Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru o reidrwydd yn arwain at wrandawiad. Caiff llawer o achosion eu datrys rhwng y partïon ac nid oes angen cynnal gwrandawiad. Os yw'r achos yn mynd yn ei flaen i wrandawiad gerbron y Tribiwnlys, mae'r panel yn cynnwys cadeirydd â chymwysterau cyfreithiol a dau aelod lleyg. Penodir aelodau lleyg oherwydd yr arbenigedd a'r wybodaeth gyffredinol sydd ganddynt.

Cyn bron pob gwrandawiad gan y Tribiwnlys, bydd panel y Tribiwnlys yn cynnal archwiliad o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Mae'n bosibl y bydd y Tribiwnlys yn archwilio'r adeiladau, y tir ac unrhyw dda byw, offer/cyfarpar a chynnyrch.

Fel arfer, bydd gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac yn agos at y tir dan sylw. Mae gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn cael eu rheoli gan y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd, a rhaid bod ganddynt gymhwyster cyfreithiol. Mae'r ddau aelod arall o'r panel yn aelodau lleyg sydd â gwybodaeth a phrofiad o ffermio, draenio a materion yn ymwneud â pherchnogion tir yng Nghymru.

Mae'r Tribiwnlys yn cyhoeddi'r penderfyniadau ar wefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Caniateir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys, am resymau cyfyngedig.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau am y Tribiwnlys a'i weithdrefnau i'w gweld ar wefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Fel arall, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gael cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 8.

## Aelodau’r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy’n gyfrifol am benodi ac ailbenodi’r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd a’r aelodau lleyg. Gwneir penodiadau ar ôl i’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol hysbysebu swyddi gwag a chynnal cyfweliadau cystadleuol.

**Cadeirydd:** Y Cadeirydd sy’n gyfrifol am weinyddiaeth farnwrol y Tribiwnlys a’r aelodau.

**Aelodau Lleyg:** Mae aelodau lleyg yn dod ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol i waith y Tribiwnlys.

**Ysgrifenyddiaeth:** Mae’r rhan fwyaf o’r gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i’r ysgrifenyddiaeth, sy’n ymdrin â’r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i’r Tribiwnlys. Mae’r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â’r cadeirydd ynglŷn â phob pwynt cyfreithiol sy’n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn y gwrandawiad ac yn trosglwyddo dyfarniadau a chyfarwyddiadau’r cadeirydd yn ysgrifenedig i’r partïon. Mae’r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y cadeiryddion, yr aelodau a’r rheini sy’n defnyddio’r Tribiwnlys ac mae’n mynd i rai o’r gwrandawiadau er mwyn helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.




## Penodiadau

Yn ystod 2023–2024 roedd:

- 0 penodiad
- 0 ymddeoliad
- 1 ymddiswyddiad

## Arfarniadau

Ni chynhaliwyd unrhyw arfarniadau yn ystod 2023–2024.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi blynyddol y Tribiwnlys ar 15 Tachwedd 2023. Bwriedir cynnal yr un nesaf yn ystod hydref 2024.

## Cysylltu â'r Tribiwnlys

I gysylltu ag ysgrifenyddiaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru:

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad y Tribiwnlys:** | Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>Blwch Postio 100<br>Llandrindod Wells<br>Powys<br>LD1 9BW |
| **Llinell Gymorth y Tribiwnlys:** | 0300 025 7809 |
| **E-bost y Tribiwnlys:** | agriculturallandtribunalwales@llyw.cymru |
| **Gwefan y Tribiwnlys:** | www.tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/ |

## Mynediad at y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na fydd rhywun sy'n medru'r Gymraeg ar gael yn syth, byddwn yn trefnu i aelod o staff y Tribiwnlys sy'n medru'r Gymraeg eich ffonio'n ôl.

Gallwch ddewis i wrandawiad gan y Tribiwnlys gael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw'ch iaith gyntaf, ac os ydych am siarad eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu cyfieithydd. Os bydd angen dehonglydd iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Os oes gennych chi, neu unrhyw un arall a fydd yn dod gyda chi i'r gwrandawiad, unrhyw anghenion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny.

Rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw, er mwyn inni fedru trefnu cyfieithwyr/dehonglwyr neu ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y rheini a fydd yn dod i'r gwrandawiad.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac Ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau a anfonwyd ymlaen
- Yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn dechrau ym mis Ebrill ac yn dod i ben ym mis Mawrth.

Cesglir yr ystadegau a ganlyn:

- nifer y ceisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- y mathau o gais a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd
- canlyniadau'r ceisiadau

### Tabl 2.1 Nifer y Ceisiadau a Ddaeth i Law ac a Gofrestrwyd yn ystod 2023–2024



### Tabl 2.2: Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a Math

| Math o Achos | Nifer y Ceisiadau a Ddaeth i Law ac a Gofrestrwyd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-2024 | 2022-2023 | 2021-2022 | 2020-2021 | 2019-2020 |
| Olyniaeth ar ôl Marwolaeth | 10 | 19 | 8 | 5 | 13 |
| Olyniaeth ar ôl Ymddeoliad | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 |
| Cydsyniad i Gyflwyno Hysbysiad Ymadael | 2 | 8 | 6 | 5 | 5 |
| Tystysgrif Hwsmonaeth Wael | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Draenio Tir | 3 | 1 | 3 | 2 | 4 |
| Cydsyniad ar gyfer Gwelliannau Hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Offer Sefydlog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17** | **28** | **20** | **13** | **22** |


### Tabl 2.3: Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd fesul blwyddyn yn ystod 2019–2024*

| Math o Achos | Achosion a Gwblhawyd (gan gynnwys rhai a drosglwyddwyd) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-2024 | 2022-2023 | 2021-2022 | 2020-2021 | 2019-2020 |
| Olyniaeth ar ôl Marwolaeth | 19 | 7 | 4 | 8 | 9 |
| Olyniaeth ar ôl Ymddeoliad | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Cydsyniad i Gyflwyno Hysbysiad Ymadael | 8 | 3 | 1 | 3 | 1 |
| Tystysgrif Hwsmonaeth Wael | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Draenio Tir | 3 | 2 | 2 | 3 | 6 |
| Cydsyniad ar gyfer Gwelliannau Hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Offer Sefydlog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **30** | **14** | **7** | **15** | **17** |

Ni chafwyd unrhyw geisiadau'n ymwneud â'r materion isod yn ystod 2019–2024:

- Cydsyniad ar gyfer gwelliannau hirdymor
- Llosgi grug neu borfa
- Gerddi marchnad
- Offer sefydlog

Tabl 2.4: Hynt Ceisiadau yn 2023–2024 yn ôl Canlyniad



Tabl 2.5: Ceisiadau yn 2023–2024 yn ôl Math o Achos a Chanlyniad

| Math o Achos | Canlyniad 2023–2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | Gorchymyn Cydsynio | Gwrthodwyd | Cadarnhawyd | Trosglwyddwyd |
| Olyniaeth ar ôl Marwolaeth | 15 | 0 | 4 | 0 | 27 |
| Olyniaeth ar ôl Ymddeoliad | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cydsyniad i Gyflwyno Hysbysiad Ymadael | 4 | 0 | 4 | 0 | 16 |
| Tystysgrif Hwsmonaeth Wael | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Draenio Tir | 3 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Cydsyniad ar gyfer Gwelliannau Hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Offer Sefydlog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **22** | **0** | **8** | **0** | **51** |

Yn ystod 2023–2024 bu:

- 0 gwrandawiad rheoli achos (rhithwir)
- 0 gwrandawiad ar bapur (lle byddai aelodau'r panel yn cwrdd heb i'r partïon fod yn bresennol)
- 0 cynhadledd ffôn (lle byddai aelodau'r panel yn cymryd rhan ar y ffôn)

## Adolygiadau ac apeliadau a anfonwyd ymlaen

Gall partïon wneud cais, am resymau cyfyngedig, am adolygiad o Benderfyniad Tribiwnlys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau.

Gall partïon apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar bwynt cyfreithiol. Rhaid gofyn yn gyntaf am ganiatâd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i apelio. Byddwch yn cael gwybod am unrhyw ddyddiadau cau yn y llythyr penderfyniad y bydd y Tribiwnlys yn ei anfon atoch. Daeth un apêl i law yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion ffurfiol i law'r Tribiwnlys yn ystod 2023–2024.

## Yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth, gan fesur hynny drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur effeithlonrwydd ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y daw'r cais i law tan y gwrandawiad neu'r penderfyniad. Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddir dangosydd sy'n deillio o arolygon a gynhelir bob hyn a hyn ymhlith cwsmeriaid.

| | | |
|---|---|---|
| **Targed:** cofrestru 95% o geisiadau neu ymdrin ag ymholiad cyn-gofrestru ymhen deg diwrnod gwaith i'r dyddiad y daw'r Ffurflen Gais i law. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 95% o ymatebion yr ymatebydd i geisiadau i'w hanfon at yr ymgeisydd ymhen deg diwrnod gwaith i'r dyddiad y daw i law. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 95% o ymatebion yr ymatebydd i geisiadau i'w hanfon at yr ymgeisydd ymhen deg diwrnod gwaith i'r dyddiad y daw i law. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau am y gwrandawiad i'w hanfon ymhen 14 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 95% o'r penderfyniadau i'w hanfon ymhen 30 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 95% o'r penderfyniadau i'w hanfon ymhen 30 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |

# Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid

## Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio gwella'r gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid a'i nod yw rhoi lle canolog i'r cwsmeriaid ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024. Mae adborth yn ein galluogi i ddeall anghenion ein cwsmeriaid yn well, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Gwnaethom dderbyn pedwar sylw yn ystod y cyfnod hwn.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2024–2025

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn dal i ddatblygu er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes ac ar ein hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes 2024–2025

- Parhau i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel gan sicrhau ein bod yn bodloni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Parhau i fonitro ac i ddiweddaru gwefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.
- Trefnu cynhadledd hyfforddiant flynyddol ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys, gan nodi anghenion o ran hyfforddiant, ac ymateb iddynt.
- Sicrhau bod y Tribiwnlys yn parhau i weithredu safonau'r Gymraeg.

# Adran 5 – Gwariant

## Gwariant ar gyfer 2023–2024

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau'r Aelodau ar gyfer gwaith y Tribiwnlys | £ 7,000.00 |
| Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau) | £ 0,000.00 |
| Hyfforddiant yr Aelodau | £ 3,000.00 |
| **Cyfanswm*** | **£10,000.00** |

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf